Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Rhanddeiliaid y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

11 Mawrth 2021

**Diwedd y Pumed Senedd a chwblhau gwaith Pwyllgor y Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Annwyl Gyfeillion,

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y Pumed Senedd, roeddwn i'n awyddus i ysgrifennu atoch chi i ddiolch i chi am eich cyfraniad i'n gwaith fel pwyllgor dros y pum mlynedd diwethaf.

Ar y pwynt hwn yn y tymor, byddwn fel arfer yn ysgrifennu atoch i amlinellu canfyddiadau ein gwaith gwaddol. Serch hynny, mae effaith pandemig y coronafeirws wedi ein gorfodi i ail-ystyried ein gwaith. Fel Pwyllgor, rydym wedi blaenoriaethu craffu ar effaith y pandemig ar ein plant a'n pobl ifanc ers mis Mawrth y llynedd. Wrth i ni agosáu at ddiwedd ein tymor, a blwyddyn ers i'r cyfnod clo cyntaf ddechrau, ceisio lliniaru effaith y coronafeirws ar ein plant a'n pobl ifanc yw ein prif flaenoriaeth o hyd.

I'r perwyl hwnnw, yn ein hwythnosau olaf byddwn yn canolbwyntio ar graffu a'n hadroddiad terfynol ar adferiad o COVID-19 i'n plant a'n pobl ifanc. Mae COVID-19 wedi effeithio ar bob maes polisi a deddfwriaeth yr ydym wedi'i ystyried yn ystod y Senedd hon. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddefnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu dros y pum mlynedd diwethaf i wneud cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru a'n pwyllgor olynol i barhau â'r gwaith y mae'n ofynnol i ni ei gwblhau nawr wrth inni agosáu at etholiad y Senedd.

Mae hi wedi bod yn fraint i mi gadeirio'r Pwyllgor hwn ers 2016. Mae hefyd wedi bod yn fraint i mi weithio gyda rhanddeiliaid ar draws y sector hwn. Heboch chi, byddai ein gwaith yn amhosibl, a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi i gyd. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod heb ei debyg, a gwn fod llawer ohonoch wedi bod ar y rheng flaen yn gefn i'n plant a'n pobl ifanc. Am hynny, ac am bopeth arall rydych chi'n ei wneud dros ein plant a'n pobl ifanc, fel Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, rydyn ni'n diolch o galon i chi.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

copi at: y Gweinidog Addysg, y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, a'r Gweinidog a Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg | We welcome correspondence in both Welsh and English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565